# Y DINESYDD

RHIF. 1 EBRILL 1973

# Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

Mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd i drafod y posibilrwydd o gyhoeddi papur newydd lleol Cymraeg fyddai'n gwasanaethu Caerdydd a'r cylch. Penderfynodd y cyfarfod cyntaf hwnnw fod angen gwirioneddol am bapur o'r fath fyddai'n adlewyrchu'n llawn fywyd Cymraeg y rhan yma o Gymru. Aethpwyd ati'n frwdfrydig i ymchwilio i bosibiliadau'r papur ac i geisio datrys y problemau fyddai'n gwynebu'r fenter. Rai degau o bwyllgorau'n ddiweddarach ac ar ôl llythyru parhaus, wele rifyn cyntaf 'Y Dinesydd', yr unig bapur lleol dinesig Cymraeg yn y byd, mae'n debyg. Ychydig o bapurau lleol Cymraeg sy'n bodoli yng Nghymru bellach oherwydd yr anawsterau mawr sydd ynglŷn ag unrhyw gyhoeddiad a chylchrediad bychan, yn enwedig felly gan nad oes modd cael unrhyw gymorth ariannol tuag at gyhoeddi fel sy'n digwydd gyda llawer o'n llyfrau a'n cylchgronau. Mae hyn yn drueni oherwydd fe ddylid cael rhwydwaith o bapurau lleol Cymraeg drwy Gymru gyfan, wedi'r cyfan onid adlewyrchiad o fywyd Cymraeg sy'n ffynnu yw papur lleol?

Yn ddiamau, mae Cymry'r Brifddinas a'r ardaloedd cyfagos yn weithgar iawn ac mae'n syndod gymaint o weithgareddau Cymraeg sy'n digwydd ynglŷn â'r eglwysi, y capeli a'r holl wahanol gymdeithasau. Mae'r ysgolion Cymraeg yn gwneud gwaith pwysig a'r ysgolion meithrin yn lluosogi o flwyddyn i flwyddyn. Bydd 'Y Dinesydd' yn gwasanaethu yr holl weithgareddau yma, ac yn cefnogi unrhyw ymgais greadigol i geisio cyfoethogi'r bywyd Cymraeg ac i ddod a'r Cymry Cymraeg yn nes at ei gilydd. Hoffem bwysleisio hefyd nad yw'r papur yn gysylltiedig a'r un blaid wleidyddol.

Croesawn adroddiadau o'r eglwysi a'r capeli, ac o'r cymdeithasau; ni fydd gwell llwyfan i roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd na'r Dinesydd oherwydd fe ddosberthir y papur mewn cylch sy'n ymestyn at, a chan gynnwys, Caerffili yn y gogledd, Llaneirw yn y dwyrain a draw tuag at y Barri a Phenarth yn y gorllewin. Yn anffodus, bu'n rhaid gadael nifer o erthyglau allan o'r rhifyn cyntaf, (yn cynnwys nodiadau o'r eglwysi a'r capeli, oherwydd roedd yn amhosib dod i gysylltiad a phawb; felly er mwyn tegwch, penderfynwyd aros nes i'r rhifyn cyntaf ymddangos, ac yna cyhoeddi yr hyn a dderbynir wedi hynny. Yn naturiol ni allwn gyhoeddi pwy sy'n pregethu ymhob capel neu eglwys bob Sul, ond yn hytrach disgwyliwn wybodaeth am gyfarfodydd arbennig).

Gan nad ydym yn gwerthu'r papur, rhaid rhoi cryn bwyslais ar hysbysebion. Os gwyddoch am rywun fyddai a diddordeb mewn hysbysebu neu os byddwch eich hunain am brynu a gwerthu, dowch i gysylltiad a—

David Meredith Ysw.,
9 Heol Cyfeiliog,
Pontcanna

Mewn unrhyw fenter o'r fath mae angen dirfawr am arian ac er y byddwch yn derbyn eich copiau yn rhad ac am ddim, mae disgwyl ichi gyfrannu'n rheolaidd neu danysgrifio.

Ar ol hyn o druth, pob hwyl ar yr ysgrifennu, a phob hwyl ar y darllen a chofiwch pob hwyl ar gyfrannu.

Norman Williams,
Golygydd y Dinesydd,
44 Heol y Nant,
Rhiwbeina

## CANT OED

**Yn ystod mis Mawrth fe ddathlodd Cymro Cymraeg o Gaerdydd ei benblwydd yn gant oed. Mae Mr. J. S. Jones yn enedigol o ardal Crymych yn Sir Benfro, ond gadawodd y fro honno yn ŵr ifanc i ddilyn ei grefft fel teiliwr yn Ferndale, ac yno daeth yn ŵr busnes blaenllaw.**

**Yn y dau-ddegau ymddeolodd o'r busnes a symudodd ef a'i deulu i fyw yng Nghaerdydd. Yn ystod y blynyddoedd diwetha rhannai ei gartref yn Dorchester Avenue gyda'i ferch, Mrs. Betty Rees. Ond ers wythnosau bellach mae yn Nghartref Nyrsio Tŷ Gwyn, yn Stanwell Road, Penarth.**

**Mae Mr. Jones yn aelod o Gapel yr Annibynwyr ym Minny Street ac yn ddiacon er 1936. Y capel, ers blynyddoedd mawr, fu canolbwynt ei fywyd, a'i lu cymwynasau i'w gyd-aelodau yn ddihareb yn eu plith. Y mae wedi cadw ar hyd y blynyddoedd yn heini ac yn eithriadol o ifanc ei ysbryd.**

**Ar ei ganfed penblwydd roedd pawb a'i hadwaenai yn dymuno'n dda i'r gŵr bonheddig annwyl a charedig a oedd wedi ennill lle arbennig iawn yn eu calonnau.**

*Gobeithir cyhoeddi, weithiau, yn y Dinesydd, hanes go diddorol am unigolion sy'n byw yn yr ardal. Hynny yw pobl gyda diddordebau gwahanol i'r arferol, neu bobl sydd hwyrach wedi gwneud rhywbeth anghyffredin, neu wedi ymweld â rhywle go arbennig. Os gwyddoch am rywun a hanesyn diddorol yn ei gylch, dowch i gysylltiad â ni.*



# CHWALFA — gan Vaughan Hughes

**Bydd dau o leiaf o gapeli Cymraeg yn diflannu o dan y cynllun i ddatblygu canol Caerdydd. Nawr fod y Llywodraeth wedi rhoi sêl ei fendith ar y cynllun bydd cwmni datblygu Ravenseft a chyngor y ddinas yn bwrw iddi ar y cyd dros y pymtheg mlynedd nesaf i drawsnewid canol Caerdydd ar gost o £75m.**

**Y ddau gapel sydd i'w chwalu yw Ebeneser a Bethel Union Street ac mae peth amheuaeth ynglŷn â dyfodol capel Pembroke Terrace. Bwriad gwreiddiol cyngor y ddinas oedd ail-gartrefu'r eglwysi hyn mewn un adeilad canolog yn Charles Street. Ond prin fod y cynllunwyr wedi dirnad y gwahaniaethau undebol rhwng capel a chapel. Gwrthwynebwyd yn chwyrn i'r math o eciwmeniaeth a gynigwyd gan Ravenseft. 'Roedd pob capel am barhau'n annibynol. Yn arwyddocaol fodd bynnag ar y cynllun swyddogol a dangoswyd i'r cyhoedd mae safle wedi ei neilltuo o hyd i'r hyn a elwir yn Ganolfan yr Eglwysi Rhyddion.**

Y capel cyntaf i'w chwalu dan y cynllun fydd Ebeneser. Rhybuddiwyd swyddogion Ebeneser y bydd yr eglwys yn diflannu ym 1975. Nid yw'r gweinidog y Parch Emlyn Jenkins yn rhoi llawer o goel ar y dyddiad hwn fodd bynnag. "Dros y deng mlynedd dwetha rŷm ni wedi cael sawl dyddiad, meddai. Mae Ebeneser yn awr yn trafod ail-leoli'r eglwys gyda'r Cyngor". Mae Ebeneser yn gofyn am ddarn o dir o'r un maint yn union a'r un y saif yr eglwys bresennol arno. "Rydym ni'n benderfynnol hefyd", meddai'r gweinidog, "o gael ein cartref newydd yn barod cyn i'r capel presennol gael ei chwalu. Ni chaniateir ar unrhyw gyfrif i'r eglwys fod yn ddigartref. Does dim bwlch i fod rhwng y gwasanaeth olaf yn ein cartref presennol a'r un cyntaf yn yr eglwys newydd". Er nad yw swyddogion yr eglwys yn fodlon gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus ar hyn o bryd rhag ofn i hynny amharu ar eu trafodaethau gyda'r cyngor, deallir mai yn Charles Street, nepell o'r safle bresennol, yr ail-adeiledir yr Ebeneser newydd.

Mae eglwys fawr fel Ebeneser yn naturiol yn gallu hawlio mwy nag y gall eglwys fechan fel Bethel Union Street. Derbyniodd Bethel lythyr oddiwrth Cyngor y Ddinas yn eu rhybuddio y bydd y ddinas yn cymryd meddiant o'u heglwys ym mis Mehefin eleni.

Mae Bethel eisoes wedi cytuno i gael eu hail gartrefu ar lawr cyntaf un o'r blociau newydd a godir yn Churchill Way. "Ond os bydd yn rhaid inni adael Union Street cyn i'r bloc newydd fod yn barod", meddai'r gweinidog y Parch William Parry, "mi fyddan ni'n mynnu cael adeilad addas dros dro. Bethel yw'r unig gapel Wesle Cymraeg yn y ddinas. Mae hi'n holl bwysig, felly inni gael safle gannolog oherwydd bod ein haelodau yn dod i Fethel o bob cwr o Gaerdydd a'r cylch." Gan fod Bethel wedi cydweithredu a'r cyngor a chytuno i gael eu hailgartrefu mewn bloc o adeiladau mi fydd yreglw ys yn pwyso ar y cynllunwyr i sicrhau bod gweithgareddau gweddill tenantiaid y bloc yn gydnaws a lle addoliad. "Mi fydden ni'n gwrthwynebu i rannu adeilad a sinema neu siop ryw neu glwb", meddai'r gweinidog.

Y gred yn y ddinas ydi y bydd eglwys Pembroke Terrace yn symud i un o faesdrefi Caerdydd ond does dim sail i hyn. "Fe drafodwyd hynny rai blynyddoedd yn ol", meddai'r ysgrifennyddes Miss Mary Roberts, "ond nid dyna'n bwriad ni yn awr. Gan ein bod ni bellach yn yr un ofalaeth a Heol y Crwys y delfryd fyddai i'r ddwy eglwys ddod ar ei gilydd mewn un adeilad newydd." Go brin fodd bynnag, y gellir rhagweld hynny yn y dyfodol agos. Nid yw capel Pembroke Terrace ar restr y cyngor o adeiladau y byddannhw'n eu prynnu drwy orfodaeth. A chred y pensaer Wyn Thomas sydd wedi bod yn cynrychioli buddiannau'r eglwys na fydd y capel yn diflannu am o leiaf wyth neu ddeng mlynedd. Ac mae lle i ddadlau na effeithir o gwbl ar gapel Pembroke Terrace.

**Ddarllenwyr - cefnogwch yr hysbysebwyr. Gallwch gael pob cyfleuster sydd angen gan hysbysebwyr 'Y Dinesydd' - dodrefn i'r ty, gwybodaeth am etholiadau, adloniant llyfrau, gwasanaeth bancio, gwledd o fiwsig etc. a chofiwch arwyddair y flwyddyn - "gwelais eich hysbyseb yn 'Y Dinesydd'!**



*Capel Ebeneser, Caerdydd, fydd yn cael ei chwalu o dan y cynllun newydd.*

## APEL AM NODDWYR A THANYSGRIFWYR

**"Diwedd y gân yw'r geiniog", medd hen air. Ynglŷn â'r DINESYDD rhaid ei droi tu chwith. Y ffaith anwadadwy yw ei bod yn rhaid inni gael sylfaen ariannol gadarn i'r fenter hon.**

**Apeliwn at holl gymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r Cylch i anfon swm flynyddol anrhydeddus i'r Gronfa; y mae rhai ohonynt wedi gwneud hynny eisoes. Apeliwn hefyd at Noddwyr unigol i gyfrannu lleiafswm o DDWYBUNT y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd; hyd yma cawsom ymateb pur dda ond croesewir rhagor, gyda breichiau a phwrs agored! Gan ddiolch yn y cyfamser, wrth gwrs, am y gwyrda a'r gwragedd hynny sy wedi bod mor hael a chefnogol.**

**Gan fod problemau gwerthu Y DINESYDD yn lleng penderfynwyd mewn cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd fis Hydref dwaetha ein bod, ar y cychwyn o leia, yn rhannu'r papur yn rhad ac am ddim. Eithr, bydded yn hollol amlwg i bob darllenydd bod cyfle iddo, neu iddi, i gyfrannu at y costau cynhyrchu. Yn wir, apeliwn yn daer at bob darllenydd nad yw yn Noddwr i lenwi'r ffurflen isod a chyfrannu UN BUNT am bob deg rhifyn o'r DINESYDD; gwych o beth a fyddai i bob derbynydd fod naill ai'n Noddwr neu yn Danysgrifiwr. Pan fo pawb yn rhannu'r baich mae'n llawer ysgafnach. Papur cymdeithas Gymraeg Caerdydd a'r Cylch ydyw hwn; gobeithio y caiff ei drin yn anrhydeddus gan bob aelod o'r gymdeithas honno.**

## TANYSGRIFIAD BLYNYDDOL I'R DINESYDD

**Carwn danysgrifio UN BUNT am ddeg rhifyn o'r DINESYDD, gyda'r ddealltwriaeth fy mod yn cyfrannu o'r newydd ar gyfer pob deg rhifyn a dderbyniad. Ymhen blwyddyn i'r mis hwn disgwyliaf ichwi fy atgoffa, trwy golofnau Y DINESYDD, am adnewyddu fy nhanysgrifiad.**

**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**MIS:** **BLWYDDYN:**

**Anfoner pob tanysgrifiad i: ALUN JONES,
(CRONFA'R DINESYDD)
27, CEFN COED GDNS.,
CYNCOED, CAERDYDD.**

# ADDYSG FEITHRIN GYMRAEG CAERYDD

gan Gwilym Roberts

**Un mlynedd ar hugain yn ôl dim ond un Ysgol Feithrin oedd, ond erbyn heddiw mae saith—Whitchurch Road, Crwys, Rhiwbeina, Llandaf, Rhymni, Llanfihangel ar Elai ac Ystum Taf—a thros gant ac ugain o ddisgyblion yn eu mynychu ac yn cael eu paratoi am fynediad i Ysgol Bryntaf. Mae llawer o'r plant hyn o gartrefi di-Gymraeg neu lle siaredir yr iaith gan un o'r rhieni'n unig.**

Fel bod rhif yr ysgolion yn cynyddu teimlwyd bod angen cyfundrefnu'r holl waith ac ar awgrym Ifan Wyn Williams, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni Bryntaf ar y pryd, galwyd cyfarfod yn 1970 i drafod y posibilrwydd o sefydlu Pwyllgor Canolog yng Nghaerdydd. Daeth y syniad yn ffaith a bu'r Pwyllgor wrthi'n ddygn o'r amser hwnnw ymlaen yn hybu ac yn datblygu'r gwaith holl bwysig o roi addysg feithrin Gymraeg i bawb oedd yn dymuno hynny i'w plant. Oddi wrth y Pwyllgor hwn hefyd y daeth y syniad o sefydlu Mudiad Cenedlaethol Ysgolion Meithrin ac mae'r syniad yna wedi troi'n ffaith bellach a bron i ddau gant o ysgolion Meithrin led led Cymru wedi ymuno â'r Mudiad. Cydnabyddwyd gwaith y Mudiad gan y Llywodraeth ychydig amser yn ôl drwy roi grant o bum mil a hanner o bunnoedd i ddatblygu'r mudiad.

Cymharol ychydig o bobl sy'n sylweddoli maint y gwaith a'r costau trwm a wynebir gan bob Pwyllgor Ysgol Feithrin. Mae'n golygu llawer o ymdrech ac egni i sicrhau llwyddiant ariannol pob ysgol ac onibai am gefnogaeth y Pwyllgor Canolog buasai nifer o'r ysgolion wedi gorfod cau eu drysau erbyn hyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am godi Cronfa trwy lythyr apêl, cynnal Ffair Caledonian, Raffl ac yn y blaen. Yn ogystal â hyn trefnir cyrsiau byr i'r Athrawesau, agor mwy o ysgolion, cefnogi'r Mudiad Cenedlaethol, paratoi taflenni o ganeuon ac awgrymiadau i rieni di-Gymraeg ac ati.

Rhaid hefyd ganmol gwaith aruthrol yr holl athrawesau a'u cynorthwywyr sy wedi bod yn y maes dros y blynyddoedd yn cynnal yr ysgolion hyn dan anawsterau lu na wynebir yn ysgolion y Wladwriaeth, ac yn paratoi'r plant yn ddyfal am fynediad i Fryntaf. Dyma'n wir halen y ddaear ac mae'n dyled yn fawr i'r bobl ymroddedig hyn yn ogystal â'r nifer bach o rieni brwd sy wedi bod yn gefn iddyn nhw.

Mae'r llywodraeth wedi datgan y bydd addysg feithrin i bawb yn ystod y blynyddoedd nesa a'n gwaith ni fel Cymry Cymraeg fydd dangos bod llawer o bobl yng Nghymru am addysg feithrin Gymraeg i'w plant a bod rhaid iddyn nhw ystyried hyn yn eu cynlluniau. Os na wneir hyn ceir brwydr arall i sicrhau lle i'r Gymraeg ar y lefel hon o addysg fel y gorfu inni wneud ym myd addysg gynradd ac yn awr ar hyn o bryd ar lefel Uwchradd.

Sonnir am Gaerdydd fel dinas Seisnig a gwrth-Gymreig ond pan sylweddolir fod 66.15% o rieni o blaid dysgu'r iaith i'w plant yn yr Ysgolion Cynradd a bod 33% o rieni o blaid addysg ddwyieithog ar linellau Cynllun y Cyngor Ysgolion, dydy'r darlun ddim yn ddu i gyd. Ein gwaith ni fel Cymry Cymraeg ydy hybu gweithgarwch sy'n mynd i Gymreigio mwy ar ein prifddinas. Mae Addysg Feithrin Gymraeg yn sicr yn gyfraniad sylweddol tuag at y nod honno. Os oes rhywun yn teimlo ar ei galon fel cynorthwyo'r achos ac sy ddim yn gwneud ar hyn o bryd danfoner rodd at Keith Davies, Trysorydd y Pwyllgor Canolog, 12, Ravens Court Close, Pen-y-lan.

---

## MEIM

Nos Wener 13eg. Noson anlwcus os ydych chi'n digwydd bod yn ofergoelus. Ar y llaw arall, os ydych chi'n hoff o wylio meim, fe fydd hi'n noson lwcus iawn. Dyna'r noson y bydd yr artist meim Americanaidd Adam Darious yn ymddangos yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter (Ebrill 13eg). Aeth a'i berfformiad i fwy na un ar hugain o wahanol wledydd ac enillodd fri dros bum cyfandir ond dyma'i ymweliad cyntaf â Chymru.

Yn ei berfformiad disglair fe gyfunir doniau'r actor, yr acrobat a'r dawnsiwr a thrwyddynt mae'n cyflwyno rai o themau tragwyddol dynoliaeth. I'w alluogi i ehangu ei gyflwyniad fe wna ddefnydd o gyfrodedd o oleuadau a synau sy'n gwneud cyfanwaith a roddodd beth wmbredd o fwynhad a llawenydd i'w gynulleidfaoedd ym mhob man. Am un noson yn unig y bydd yma ac o ystyried mor afresymol o isel yw'r tâl mynediad (35c i Aelodau, 45c i eraill) fe ddylai'r lle fod yn orlawn.

---


CYMDEITHAS RHIENI YSGOL GYFUN RHYDFELEN
(Cangen Caerdydd)

## *CILWCH RHAG OLWEN*

Rhaglen ysgafn gan W. R. Evans a berfformiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Hwlffordd, 1972.

Efallai na chawsoch chi gyfle i weld y perfformiad hwn fis Aws y llynedd. Dyma'ch cyfle olaf!

Estynnwn wahoddiad cynnes iawn i'r teulu oll i ddod i'r

*NEUADD GOFFA, Y BARRI*

**Nos Sadwrn, Mai 12, 1973**

Drysau'n agored: 6.30. I ddechrau am 7.00

Tocynnau i'w cael drwy'r post oddiwrth:

Mrs Avril Lewis,
Glyn Rhosyn,
3, Derwen Road, Cyncoed,
Caerdydd CF2 6QP
Ffon: 751831

Mr Selwyn Jones,
27 Bettws y Coed Road,
Cyncoed, Caerdydd
Ffon: Caerdydd 751505

**Prisiau tocynnau**

Seddau: Oriel—75c. Plant 40c
Seddau blaen ar lawr: 60c. Plant 30c
Seddau ol ar lawr: 40c. Plant 20c


Siec i Gymdeithas Rhieni Ysgol Gyfun Rhydfelen, Adran Caerdydd.'



## *FFAIR YR URDD*

**Ysgol Tonyrywen**
**Birchgrove, Caerdydd**
**Dydd Sadwrn, Ebrill 14, 1973**
**2.30 p.m.**

*DEWCH YN LLU*
*Stondinau o bob math a rhywbeth i Bawb!*


Rydan ni'n ceisio hel arian ar gyfer ein dyfodol.
Y broblem? Cael hyd i le diogel i ddodi'r arian.
Waeth heb na'i gladdu yn yr ardd gefn – fe fydd y ci wedi dod o hyd iddo.
Waeth heb na'i guddio o dan y llawr – fe fydd rhywun wedi ei ddwyn.
Yr ateb? Cyfrif Cadw yn y Midland.
Mae'n cynilion yn tyfu; d'oes dim temtasiwn i'w gwario; ac mae nhw'n ennill llogau i ni.
Os am hel at ddiwrnod glawog (neu at wyliau haf hyd yn oed) galwch yn y gangen agosaf o'r Midland—yn fuan.
Banc Midland

# URDD GOBAITH CYMRU

## gan Catrin Davies

**Tipyn o gamp yw ceisio cwmpasu holl agweddau, gweithgareddau ac arweinyddion yr Urdd yng Nghaerdydd i hyn o ofod—ond dyma fwrw iddi!**

**Gweinyddir yr Urdd yn ganolog yn y brifddinas gan Gyngor Sirol Caerdydd dan gadeiryddiaeth Garwyn Davies. Y Cyngor hwn sydd yn gyfrifol, trwy is-banelau, am yr Eisteddfod Sir a gynhelir ar 7 Ebrill yn Ysgol Glantâf (cadeirydd, Robin Jones, B.B.C.) ac am y Ffair fawr ar Ebrill 14 yn Ysgol Tonyrywen (ysgrifenyddes Miss Elen Ogwen Jones). Gwahoddir holl ddarllenwyr 'Y Dinesydd' i gefnogi'r ddwy fenter werthfawr yma. Eleni eto bwriedir cynnal 'Nofio Noddedig' ym mhwll nofio'r Ganolfan Chwaraeon tua diwedd mis Mai.**

Y Ganolfan, Heol Conwy, yw prif gyrchfan aelodau'r Urdd yn y ddinas, a gobeithir cyn bo hir sicrhau Warden ac arweinydd ieuenctid llawn amser i ofalu am y ganolfan ac i ehangu ar y defnydd a wneir ohoni. Erbyn hynny bydd y gwaith o adnewyddu'r adeilad,—gan roi aillawr newydd ynddo a moderneiddio llawer ar y cyfleusterau—ar droed, a hynny o dan arolygiaeth y Pwyllgor Cyllid ac arweiniad Bob Roberts. Y Pwyllgor Adeiladu ac Offer (caderydd Ken Kane) fydd yn gyfrifol am yr adnoddau a'r offer o fewn y Ganolfan.

Mae'r ddinas wedi'i rhannu rhwng dau bwyllgor—Cylch y Dwyrain a Chylch y Gorllewin. Bu hon yn flwyddyn arall hynod weithgar yn hanes Cylch y Gorllewin o dan arweiniad Rhys Vaughan Evans a John Blake. Daw dros 50 o blant o 10 ysgol gynradd yn y cylch i gyfarfod bob yn ail nos Lun yn y Ganolfan. Gobeithir eu dwyn ar wibdaith i'r Bannau ym mis Medi ynghyd â chynnal mabolgampau a pharatoi ar gyfer y gwersylloedd dysgwyr yn Llangrannog. Gwelwyd Cylch y Dwyrain yn ffynnu eleni hefyd — trwy frwdfrydedd y cadeirydd Gwilym Roberts. Dosrannwyd y cylch yn dair adran gan ddwyn adrannau ysgolion cyfagos at ei gilydd i gynnal twmpathau dawns, chwarae pump bob ochr, a chystadlu mewn mini-mabolgampau. Yn ystod Ebrill a Mai bydd y pwyslais yma ar baratoi ar gyfer yr Eisteddfod, y mabolgampau, a'r cyrsiau iaith.

Nid yw'r Ganolfan ei hun yn segur yn aml ychwaith. Wedi gweithgadderau'r plant iau nos Lun, cynhelir Uwchadran yno o 6.30 ymlaen. Ar gyfer Cymry Cymraeg rhwng 11-15 oed y mae'r uwchadran ac yn ystod Ebrill a Mai byddant yn cynnal nosweithiau i baratoi ar gyfer mynd am benwythnos i Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored, Diffwys, yng Ngheredigion. Clwb hamdden ydyw'r adran hon sy'n ceisio dysgu'r aelodau sut i hamddena trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwen Aaron ac Ethni Daniel sy yng ngofal y trefniadau.

Ar nos Wener mae'r Aelwyd i bobl ifanc rhwng 16-18 oed yn cyfarfod i hamddena tua 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan. Yma cânt ryddid i chwarae snwcer a chyfeillachu a gobeithia'r arweinydd, Peter Mcmullen, y ceir offer newydd a mwy addas ar gyfer y gymdeithas hon yn fuan. Bwriedir paratoi partion ac eitemau i gystadlu'n Eisteddfod Pontypridd hefyd.

Cymdeithas arall sy'n defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd bob nos Fercher a nos Sul am 8 o'r gloch yw Côr Aelwyd Caerdydd, arweinydd Alun Guy. Bellach y mae tua 120 o aelodau yn y côr. Bwriedir cynnal cyngerdd yn ysbyty Llandoch ar 12 Ebrill ac ym Mhumsaint, Sir Gaerfyrddin ar 14 Ebrill. Yn ogystal, bu'r côr wrthi'n ymarfer trwy'r gaeaf y B Minor Mass gan Bach ar gyfer cyngerdd yn y dyfodol agos.

Yn sicr saif y Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg a gynhelir bob nos Fercher am 7 o'r gloch ymhlith gweithgareddau pwysicaf a mwyaf llewyrchus yr Urdd yng Nghaerdydd. Ymaelododd 150 o aelodau ym mis Medi 1972, ffurfiwyd 10 dosbarth a deil cyfartaledd uchel ohonynt i fynychu'r cyfarfodydd. Sylweddolwyd yn fuan fod casglu i yfed coffi a sgwrsio'n anffurfiol wedi'r dosbarthiadau bron mor bwysig â'r gwersi eu hunain ac o hyn y tyfodd y cynllun o gynnal nosweithiau coffi yn nhai cyfeillion a chyfarfodydd adloniadol eraill i hybu siarad Cymraeg. Hwyrach y byddai rhai o ddarllenwyr yn barod i helpu'r dysgwyr trwy gynnal noswaith goffi i nifer fychan ohonynt yn eu cartrefi.

At hyn bu'r Ganolfan yn gartref hefyd i'r Ysgol Feithrin, i Gwmni Opera Cymru ar gyfer eu rihyrsals a'r dosbarthiadau Gwyddeleg llwyddiannus. Hoffem bwysleisio fod croeso i gymdeithasau eraill fenthyg yr adeilad hefyd, pan fo'n gyfleus.

Un o'r datblygiadau pwysicaf oll yn y blynyddoedd olaf hyn fu ffurfio nifer o adrannau pentref yng nghyffiniau Caerdydd. Mrs Beti Wyn Jones sy'n arwain adran Llanishen, a bydd yn canolbwyntio yn arbennig ar ddysgu alawon gwerin a phenillion i'r aelodau. Cymry Cymraeg o dan 15 sydd yn y Côr. Dwy flynedd yn ôl cychwynnodd Gwilym Roberts yntau adran yn Rhiwbeina ac ar nos Lun rhwng 6 a 7.30 o'r gloch gwelir tua 30 o Gymry Cymraeg yr ardal, rhwng 9-11 oed yn troedio tua Chlwb Adloniadol Rhiwbeina. Hyd yn hyn cawsant ymarfer corff a chwaraeon, yn ogystal â chasglu arian at hostel Byddin yr Iachawdwriaeth yn y Brifddinas. Bwriedir cynnal gweithgareddau awyr agored ym Mharc Cae'r delyn yn ystod yr haf. Ym mis Medi agorwyd adran newydd pentref Gwaelod y Garth, trwy frwdfrydedd Bob Roberts. Bellach cafwyd 20 o blant dros 8 oed yn ymgynnull yn Festri Capel Bethlem ar nos Fercher rhwng 6.30 ac 8 o'r gloch.

Yn sicr, gobeithia'r Urdd ddatblygu ymhellach i'r cyfeiriad hwn yn y blynyddoedd nesaf ond rhaid wrth ragor o arweinwyr a chynorthwywyr lleol i ehangu a chynnal gweithgareddau wythnosol fel hyn. Bydd pwyllgor y Cyngor Sirol yn ddiolchgar iawn i unrhyw un a fyn roi help llaw.

Aelodau'r Pwyllgor:

Mr. Garwyn Davies (Cadeirydd)
Ysgol Gynradd Birchgrove,
Gabalfa.

Miss E. Humphreys
(Is-gadeirydd)
33 Monthermer Road,
Cathays.

Miss Catrin Davies
(Ysgrifenyddes)
197 Ffordd Whitchurch,
Gabalfa.

## *AGWEDD*

Beth yw plentyn?

Dyna'r cwestiwn sy'n codi yn sgil yr holl drin a thrafod ar y dreth werth newydd sy'n dod i rym y mis hwn.

Mae dillad plant yn rhydd o'r dreth. Ond sut mae dehongli 'plant'? Mae'r ateb i'w gael mewn modfeddi yn yr Adran Gwstwm ac Ecseis Tu hwnt i derfynau'r mesur penodedig mae'n rhaid trethu dilledyn gan ei fod yna'n addas i oedolyn bach. Soniodd y Canghellor yn ei araith ar Fawrth y 6ed am y merched lluniaidd tenau sy'n gwasgu eu hunain i ddillad plant, di-dreth—gan amddifadu'r Trysorlys o'i 10%.

Ond i rieni nid maint mab neu ferch sy'n cyfrif ond y broblem o'u cadw mewn dillad hyd, o leiaf, ddiwedd dyddiau ysgol. I bob un o'r 'merched tenau' mae yna'n sicr rai cannoedd o rieni'n talu'n am drowsus i'w mab (neu ferch ran hynny)—yn 14 oed, yn chwe troedfedd o daldra a thraed i fatsio.

Mae sgidiau plant yn rhydd o'r dreth hyd at faint 5½, ond, fel esboniodd Mr Alcwyn Evans, Cyfarwyddwr Dan Evans Y Barri, "os bydd rhyw gymaint o elfen ffasiwn yn y cynllun, yna, mae'n rhaid eu trethu". A gan mai esgidiau ffasiwn sy'n cludo'n merched ni i'r ysgol o'u dyddiau cyntaf, dyw haelioni'r mesurau ddim yn bwysig.

Yn ôl yr Adran yng Nghaerdydd mae'r dreth hefyd yn disgyn ar wisg ysgol ar gyfer plant hŷn (h.y. mwy mae'n debyg) Gyda pris cot fer, ysgol (maint 36") tua'r £8 (a phrin y gellid ei disgrifio'n ddilledyn addas i oedolyn bach neu fawr) mae'n demtasiwn i rieni fynd ati i geisio magu cenhedlaeth o gorachod.

O leiaf gyda'r dreth werth a'i gradd safonol o 10% yn hytrach nag amrywiaeth y dreth bwrcas, mae'n hawdd rhifo faint o bris dillad ein plant sy'n chwyddo'r trethi—os yw hynny'n gysur yn y byd.



*Côr Caerffili, un o'r corau fydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth rhwng Corau meibion Cymru yn dechrau ar HTV Cymru Ebrill 3ydd.*

# MAES Y PLANT

*gan*

*W. J. Jones*

Tybed faint ohonoch chi sy'n hoffi cwrdd â phobl ddieithr? Fe all fod yn brofiad digon diflas i lawer! Methu gwybod beth i'w ddweud, ac am fynd allan i chwarae—o'r ffordd!

Nawr, dyma gyfle i chi gwrdd â phapur dieithr—Y DINESYDD, ac fe fydd hanner tudalen ynddo fe i chi—bob mis. Hanner tudalen fydd yn cynnwys tipyn o bopeth!

I ddechrau, gadewch i ni gyflwyno'r papur ichi. Pe bawn i'n gofyn i chi ble rych chi'n byw, fe fyddech chi'n ateb—yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru! Pe bawn i'n gofyn ichi, faint o bobol sy'n siarad Cymraeg sy'n byw yng Nghaerdydd, efallai y byddech chi'n ateb, "Llawer iawn." Ond fe fyddech chi'n anghywir. Yr ateb yw, "Dim llawer". Ac mae llawer *iawn* o bobol Caerdydd yn siarad Saesneg.

Ond fe ddywedodd y bobol sy'n siarad Cymraeg, "Mae'n rhaid i ni gael papur Cymraeg. A dyma fe! Dyw e'n costio dim ac ar ôl ichi orffen i ddarllen e bob mis (ac fe fyddwch yn ei gael un waith bob mis)—fe fyddwch chi wedi dysgu llawer am Gaerdydd!

Fe all Y Dinesydd eich helpu chi hefyd!

Sut?

Wel, edrychwch o gwmpas eich ystafell. Oes gennych chi rywbeth y carech chi werthu? Os oes e, anfonwch nodyn i Olygydd Y Dinesydd i ddweud beth yw e. Sgrifennwch faint garech chi gael amdano fe, a hefyd eich cyfeiriad neu eich rhif ffôn. Rhywbeth fel hyn.

Mae gen i Bram i'w werthu! Hanner can ceiniog! Anfonwch at, Miss Sali Jones, 3, Heol y Tywysog, Caerdydd, Rhif ffôn, Caerdydd 123456. Syml!

Hwyrach y carech chi brynu rhywbeth? Ei brynu fe heb fynd i'r siop a thalu llawer o arian. Sgrifennwch fel hyn.

Rydw i eisiau pram i'r ddol. Anfonwch at, Miss Sali Jones, 3, Heol y Tywysog, Caerdydd, Rhif ffôn, Caerdydd 123456. Nawr, nid merched yn unig fydd am brynu a gwerthu pethau. Falle y bydd rhai ohonoch chi'r bechgyn yn casglu setiau o bethau ac am gymorth rhywun i wneud set yn gyflawn. Hwyrach y bydd rhai ohonoch chi wedi tyfu'n rhy fawr i'r beic neu i'r esgidiau pêl droed. Anfonwch bob gwybodaeth amdanyn nhw i'r Dinesydd.

## FFORDD ARALL O HELPU!

Ydy'ch rhieni'n gadael ichi goginio yn y gegin ambell dro? Hynny yw, cael gwneud rhywbeth eich hunain heb iddyn nhw fod o gwmpas yn gweiddi, "Paid â gneud llanast!" neu "Dos o dan draed".

Os ydyn nhw, dyma ichi rywbeth da i'w yfed! Fe fyddwch chi eisiau,

2 siâr o hufen iâ

bar 2 owns o siocled plaen

llond llwy fwrdd o ddŵr sy'n ddigon poeth i doddi'r siocled

Dyma sut mae gwneud

Rhowch yr hufen iâ mewn dau wydryn—yr un faint ym mhob gwydryn.

Manwch y siocled a'i roi yn y dŵr cynnes. Os nad yw'r dŵr yn ddigon cynnes i'w doddi, deliwch y cyfan mewn padell o ddŵr poeth, a gofynnwch i un o'ch rhieni ddod i wylio, rhag ofn!

Wedi iddo fe doddi, arllwyswch e'n gynnes i ben yr hufen iâ . . . a'i fwyta gyda ffrind. Os oes gan eich rhieni ychydig o hufen wedi'i chwipio i'w roi ar ben y cyfan, gorau oll!

Mae'n flasus tu hwnt ar ddiwrnod poeth!

## HELP!

Nawr, fe fedrwch chi ein helpu ni! Os oes gennych chi risait da ar sut i wneud rhywbeth blasus, anfonwch at y golygydd, ac fe gaiff rhagor o blant wybod eich cyfrinach. Fe sgrifennwn ni'r hanes yn Y DINESYDD.

Os oes gennych chi unrhyw newyddion, anfonwch wybod i'r golygydd, ac fe fydd croeso bob amser i lun ohonoch chi i'w argraffu yn y papur. Dyna ffordd dda i ddod i adnabod ein gilydd! Cael ein lluniau yn y papur!



*Ar deledu BBC Cymru drwy gydol Mis Ebrill a Mai fe welwch 'Nol Mewn 5 Munud' gyda Dewi Pws, Victoria Plucknett, Huw Ceredig a Sian Miarczynska.*

Fe ddaeth Mair at ei mam ac meddai hi, "Mam, mae dadi'n tyfu'n fuan, fuan."

"Nag ydy ddim! Mae dadi wedi gorffen tyfu!"

"Ydy mae e'n tyfu. Mae'i ben e wedi tyfu trwy'i wallt e!"

Fyddwch chi'n ymffrostio ambell dro?

Roedd yna Americanwr un tro yn dweud mai llongau America oedd llongau mwya'r byd. Medde fe,

"Mae'n llonge ni mor fawr—rhaid i'r capten gael car i fynd o gwmpas y dec i weld a yw'r morwyr yn gweithio."

Roedd Cymro'n gwrando arno fe a medde hwnnw,

"Twt, twt, mae llongau Cymru mor fawr nes bo rhaid i'r cogydd gael sybmarîn i fynd o gwmpas y sosban i weld a yw'r tatw'n ddigon!"

********************

Oes gennych chi stori dda? Gadewch i ni ei chlywed hi!

********************

Fedrwch chi ateb cwestiynau anodd?

Dyma un! Os yw Ebrill y cyntaf ar dydd Iau, ar ba ddiwrnod y bydd Ebrill 31? Wyddoch chi'r ateb?

Wedi ichi gael yr ateb, edrychwch mewn calendar i weld a oeddech chi'n iawn!

Os oeddech chi'n anghywir, gofynnwch y cwestiwn i'ch ffrindiau!

********************

Nawr, neges mewn côd! Os medrwch chi ddarllen y frawddeg, sgrifennwch hi ar bapur a'i ffonio hi i'r golygydd!

**IMDS NDOR LANTPO ADI LLAW ARLLENDDS YC EGESNW ONHI**



*Llewelyn — arwr y plant ar raglen HTV Cymru 'Miri Mawr'*

NEWYDDION
MATERION CYFOES
DRAMAU
RHAGLENNI ADDYSGOL
ADLONIANT
RHAGLENNI I BLANT
CREFYDD
RHAGLENNI CERDDOROL
RHAGLENNI DOGFEN
RHAGLENNI NODWEDD
CHWARAEON
TELEDU ALLANOL

HYN OLL AR SGRIN

HTV CYMRU WALES

DYMUNA HTV CYMRU BOB LLWYDDIANT I'R DINESYDD

**COFIWCH !**

ETHOLIADAU'R CYNGHORAU NEWYDD

EBRILL 12fed – SIR DE MORGANNWG

MAI 10fed – ARDAL CAERDYDD

**A PHLEIDLEISIWCH !**

# CYNHADLEDD TALIESIN

**Eleni, mae'r Academi Gymreig yn cynnal ei chynhadledd Basg yn y ddinas—yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd. Y pwnc a drafodir yw "Y Llenor a'r Cyfryngau Torfol". Fel gyda'r cynadleddau a gynhaliwyd yn y gorffennol, mae croeso i bawb a rhywbeth at ddant pob un.**

Agorir y gynhadledd ar nos Sadwrn, Ebrill 14, gyda darlith gan y nofelydd enwog, Emyr Humphreys. Ei destun fydd, "Y Llenor a'r Cyfryngau Torfol." Mae'r Sul yn ddiwrnod trwm, gyda darlith ar "Cymru a'r ffilm" toc ar ôl brecwast gan Michael Bayley Hughes. Yn union ar ôl y sesiwn goffi, cawn wybodaeth gan Gwenlyn Parry ar y testun "Teledu Drama". Ar ôl te, traddodir darlith gan Gwyn Erfyl ar "Cyfrwng y Teledu". Ar ôl cinio hwyr, dangosir ffilm yn theatr ddarlithio'r coleg.

Wynne Lloyd biau'r sesiwn gyntaf dydd Llun. Fe fydd yn arwain sesiwn o edrych a thrafod, o astudio tâpiau gweld ac ati. Ar ôl te, sonia Bernard Evans am Lenyddiaeth ar y radio.

Bore dydd Mawrth, rhydd William Aaron wybodaeth ar sut i wneud ffilm a cheir cyfle ar ôl yr egwyl goffi i edrych ar yr holl gyfarpar clyweled sy ym meddiant y Coleg Addysg. Fe fydd yr awr hon o dan arweinyddiaeth Iorwerth Clarke-Jones, sy ar staff y coleg, ac yn gyfrifol, o dan arolygiaeth Hywel D. Roberts am y cyfarpar clyweled.

Cynhadledd breswyl yw hon, a disgwylir y bydd llawer o bobl o bell yn aros yn un o hostelau'r coleg. Darperir bwyd (am bris) i bawb ond rhaid anfon gwybod ymlaen llaw i Stiward y gynhadledd, 46, Crystalwood Road, Caerdydd (756282). Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gynhadledd dalu swm o ugain ceiniog am gyfran ac un bunt am y gweithgareddau i gyd.

Gan mai yn y ddinas y mae pencadlys y BBC yng Nghymru a hefyd stiwdios HTV, disgwylir y bydd llawer ohonoch yn troi i mewn yn ystod y gynhadledd.

# TRIAWD Y MABINOGI

Cyn hir fe fydd un o'n straeon hynaf a hynotaf yn derbyn triniaeth a fuasai yn nhyb rhai yn ymylu ar amharch. Os dychmygwch chi weld Arianrhod yn canu solo bop i gyfeiliant Lleu Llaw Gyffes ar y gitar drydan, Gronw Pebr ar y gitar bas a Gwydion ar y drymiau yna mae gennych syniad o'r math o beth i'w ddisgwyl pan gyflwynir "Lleu—Divine Warrior" gan gangen saesneg Cwmni Theatr Cymru. Arbrawf newydd ddiddorol yw hyn i gyflwyno rai o straeon traddodiadol Cymru mewn idiom fodern.

Gavin Owen, un o gyfarwyddwyr y cwmni, biau'r syniad. Mae eisioes wedi arbrofi gyda chyflwyniad modern o stori "Culhwch ag Olwen" i rai o ysgolion De Cymru ac fel canlyniad i lwyddiant hynny fe'i gwahoddwyd i gynhyrchu rhywbeth cyffelyb i'r Cwmni Theatr. Yr hyn a elwir bellach yn 'rock musical' yw'r cyfrwng a ddefnyddir i gyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf hon o hanes Blodeuwedd ac un nodwedd arbennig o'r cyflwyniad hwn yw'r ffaith y gwelir yr actorion/gantorion hefyd yn cyfeilio iddynt eu hunain.

Athro yn Ne Llundain yw William Wray, awdur y geiriau a'r caneuon ac mae Sebastian Graham-Jones, sy'n gyfrifol am y gerddoriaeth, yn aelod o'r Cwmni Theatr. Bydd "Lleu—Divine Warrior" i'w weld yn Theatr Stiwdio'r Casson o 25ain Ebrill hyd 12fed. o Fai.

# E. MASON LEWIS

O fro hyfryd Aberdyfi lle bu Egryn Mason Lewis, ymhlith pethau eraill yn llanc addawol iawn ar y maes golff, i Goleg Aberystwyth lle'r enillodd glod fel canwr caneuon ysgafn y cyfnod, oddi yno i'r Llu Awyr a chyrchu dros rai o ddinasoedd yr Almaen ac ennill y D.F.C., ac ymsefydlu wedi'r rhyfel yng Nghaerdydd mewn swydd gyfrifol fel cynrychiolydd cwmni yn y diwidiant adeiladu—ar hyd y daith bu Mason yn ŵr cadarn solet a hollol ddibynadwy. 'Roedd wrth ei fodd yn cwmnia gan fwynhau stori dda neu gynnal dadl a chyfnewid syniadau ond roedd ar ei orau pan ofynnech ei gyngor ar ryw broblem ymarferol. Byddai pensel yn ei law mewn chwinciad i dynnu cynllun ar ddarn o bapur neu ar gornel y ford. Roedd yn ddyn aml ei gymwynas a pharod ei help llaw. Fe wn i am nifer o bobl unig a fydd yn fwy unig a di-ymgeledd o farw Mason. Ers blynyddoedd cyfrannai'n helaeth i waith Cyngor Plwyf Radyr ac roedd yn gadeirydd Cymdeithas Cynghorau Plwyf y cylch. Ymhlith y pethau da eraill a wnaeth yn ei fywyd cyhoeddus oedd gofalu yn ddi-stŵr a di-ffwdan fod enwau hwylus Cymraeg ar heolydd newydd ei blwyf ei hun. Llynedd bu'n gadeirydd hapus graslon a di-lol Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd.

Yn ei deyrngarwch i'r BBC roedd cystal pob dim ag unrhyw aelod o'r staff a rhan o'i gariad at Morfudd oedd ei ymlyniad ffyddlon wrth y Gorfforaeth a gafodd y fath wasanaeth clodwiw ganddi hi. Braint fawr oedd cael cyfeillgarwch y ddeuddyn hyn a chydymdeimlwn yn ddwys â Morfudd yn ei gofid a'i hiraeth.

A.B.O.D.


# DARN I'R DYSGWYR

Rydw i'n siwr y bydd pob person sy'n dysgu Cymraeg yn y ddinas yn falch iawn i weld papur Cymraeg yn dod allan yn fisol yma. Mae gyda'r dysgwyr eisioes gylchgrawn misol sef Yr Agoriad'. Ydych chi wedi cael copiau o hwnnw? Dysgwyr sy'n ysgrifennu hwnnw i gyd ac y mae'n gwerthu yn dda iawn. Mae dau rifyn wedi dod allan yn barod ac mae wedi gwerthu tua 400 bob tro. Gobeithio bod rhai ohonoch yn mynd i ysgrifennu storiau, erthyglau, llythyron i'r Cylchgrawn hwnnw.

Mae croeso i chi hefyd ysgrifennu rhywbeth i'r papur hwn, os oes gyda chi rywbeth y byddech yn hoffi ei ddweud ysgrifenwch ata i J. A. Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen, Caerdydd. Edrychoch chi ar y rhaglen 'Croesi'r Bont' ar y teledu? Roedd hon yn help mawr i chi, siwr o fod—rhaglen dda iawn. Mae digon o bethau i gael nawr i helpu'r dysgwyr i ddod i siarad Cymraeg yn dda iawn. Mae'r gwanwyn a'r haf yn mynd i ddod yn fuan. Rydwi'n gwybod fod llawer o'r dysgwyr yn gorffen dysgu Cymraeg yr adeg yma. O dyna drueni—mae'n rhaid dysgu drwy'r flwyddyn ac nid dim ond yn y gaeaf neu fyddwch chi ddim yn dod yn Rhugl—Fluent.

Ydych chi wedi darllen hwn a'i ddeall, os na, ewch i nol y Geiriadur. Beth yw Geiriadur? Wel Dictionary' wrth gwrs. Does dim un gen i' meddech. Beth am brynu un da. Dyma un da i chi— Y Geiriadur Mawr,—gofynwch amdano yn siop 'Y Triban'. Daliwch ati i ddysgu a cofiwch ysgrifennu ata i.

JOHN ALBERT EVANS


CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

GYDA CHERDDORFA

Arweinydd—Roy Bohana

MESSIAH

**Handel**

**Eglwys Gadeiriol Llandaf**

**Mai 12, am 7.30 p.m.**

Tocynnau—£1.25, £1 a 60c.n.

Dylid anfon am docynnau at:

J. Mervyn Williams,
Rheolwr,
Côr Poliffonig Caerdydd,
"Argoed",
Craig Penllin,
Y Bontfaen.

Ffôn—Y Bontfaen 3623

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

## Amgueddfa Werin Cymru

SAIN FFAGAN

Teleffon Caerdydd 561357-8

Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

* Mynediad: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst) Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c

Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw

* Maes Parcio: Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c
* Dyddiau'r wythnos: Ebrill-Medi—10 a.m.-7 p.m. Hydref-Mawrth—10 a.m.-5 p.m.
* Suliau: Agorir am 2.30 p.m.
* Llawlyfrau (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)

Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref . . .

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.

NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.


# Merched y Wawr, Caerdydd

**Holwch unrhyw ddyn sy'n cerdded strydoedd y ddinas "P'un yw Cymdeithas fwya llewyrchus Caerdydd?" ac fe ddaw'r ateb ar 'i ben, "Wel Merched y Wawr wrth gwrs!" Mae pawb, wel pawb, yn gwybod hyn a dyna pam mae gwŷr Cymraeg y brifddinas yn crynu yn nhraed eu sanau ac yn gafael yn dynn yn eu tipyn Clwb Cinio. Ar hyd y tymor a aeth heibio fe gafwyd cyfarfodydd hapus yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, a nifer dda o'r can aelod ymhob cyfarfod. Erbyn hyn mae hi bron iawn yn amser i fwrw golwg yn ôl ar y rhaglen, a mwynhau atgofion am nosweithiau difyr yng nghwmni'r Barnwr Dewi Watcyn Powell (yn sôn am ei yrfa), Mrs Rees o Bontarddulais (yn sôn am gwiltio Cymreig), Mered a Phyllis (yn canu alawon gwerin), Margaret Evans (yn adrodd hanes taith Merched y Wawr i Lydaw), Winifred Llewelyn o Benarth (yn sôn am brydferthwch therapiwtig mewn ysbytai), ac ati.**

Y mis yma, Ebrill 17eg, fe ddaw Islwyn Jenkins atom i sôn am ffotograffiaeth ac i dafoli ein ffotograffau ni, a hefyd dyna noson ein cyfarfod blynyddol i ethol swyddogion y flwyddyn nesa. Dowch bawb, a'ch syniadau i'ch canlyn! (8 p.m. Canolfan yr Urdd, Heol Conwy).

Ar ôl hynny, fydd na ond pleserau ar ôl yn ein hanes, sef a) Cinio'r Sir yn y Barri ar Fai 15, a b) Gwibdaith y gangen leol i Blas Glansefin. Nawr yw'r amser i'r aelodau logi lle ar y bws ar gyfer b)—ewch ati'n ddioed os na wnaethoch eisoes, mae'r lle yn llenwi. (Croeso — a braint — i'r gwŷr ymuno a ni i fynd i Lansefin os dymunant. Mae un neu ddau enaid dewr eisoes wedi mentro rhoi ei enw i lawr).

Yn ogystal, mae paratoadau ar y gweill ar gyfer yr Ysgol Breswyl (dan ofal canghennau sirol Dwyrain Morgannwg) a gynhelir fis Gorffennaf yn Neuadd Breswyl y Brifysgol ym Mhenylan. Cynhadledd Genedlaethol fydd hon, a'i thema fydd "Hamdden". Eisoes fe drefnwyd panel o siaradwyr a difyrrwyr diddorol, a disgwylir cynrychiolwyr o Gymru benbaladr. Bydd angen cymorth pob aelod cyn hir i baratoi arddangosfeydd a chroeso.

### Dosbarthiadau Nos Merched y Wawr

Does neb a wâd nad yw Merched y Wawr yn paratoi rhywbeth at ddant pawb! Teimlodd llawer o aelodau bod angen dosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas hon, felly eleni aed â'n cais at Bwyllgor Addysg y ddinas. Cafwyd pob cymorth, ac roedd croeso i ni ddewis dosbarthiadau ar unrhyw bynciau a fynnem. Ond barnwyd ei fod yn well i ni gropian cyn cerdded, ac felly am eleni un dosbarth a drefnwyd, a hynny yn Ysgol Glan-y-Nant at nos Lun, yng ngofal Ann Ladd. Dyma'r dosbarth mwya llon fu erioed, yn siwr, a'r tafodau'n ymlacio'n gartrefol dros y gwisgoedd, y collage, ac ati. Erbyn diwedd y flwyddyn waith fe fydd nifer o aelodau wedi mynychu'r dosbarth (fe ddewisodd rhai fynd fesul tymor). Bu'r arbrawf yn llwyddiant sicr, a bwriedir ei pharhau a'i hymestyn i bynciau eraill y gaea nesa (73/74). Felly cedwch lygad ar agor am y manylion pan ddaw Medi!

Hefyd, yn dilyn llwyddiant y llynedd, trefnwyd dwy gyfres o chwech o ddarlithiau gan Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol ar ein cyfer (ac ar gyfer ein gwŷr hefyd!)—6 darlith ar lenorion Cymraeg yng ngofal Branwen Jarvis, a 6 ar hanes cymdeithasol Morgannwg yng ngofal Huw Thomas o'r Barri. Cafwyd blas ar y cyfresi yma hefyd, felly does dim esgus os nad yw synnwyr pen a dwylo aelodau Caerdydd o Ferched y Wawr wedi'u hogi'n bur finiog erbyn hyn. Gwyliwch chi, fechgyn!

## CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD

**Cadeirydd: Nia Hall Williams**
**Is-gadeirydd: Valmai Evans**
**Trysorydd: Beti Pritchard**
**Ysgrifenyddes: Manon Wyn Griffiths, 1 Elmgrove Road, Eglwys Newydd, Caerdydd.**

**Cynhelir cyfarfod o'r Clwb bob deufis—am eleni yn Y Pantmawr, Tyla Teg, Rhiwbeina. Rhyw gyd-gyfarfod anffurfiol ydyw, a byddwn fel arfer yn gofyn i rywun ddod atom i roi sgwrs ac ateb ein cwestiynau, ac yna cawn bryd o fwyd. Hanner cant yw nifer yr aelodau ar hyn o bryd, ac mae croeso i unrhyw ferch ymuno—dim ond rhoi gwybod i'r ysgrifenyddes a thalu £1 o dâl aelodaeth.**


**Angen Cymorth! Dynes amyneddgar i warchod dau blentyn 4 a 2 yn ystod y dydd yn achlysurol. Tâl rhesymol. Cludiad. Caerdydd 33721.**

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

yn cyflwyno

# 3 x 3

Cyfres o dri darlleniad gyda beirdd a chantorion o'r Alban, Lloegr ac Iwerddon. Darlleniad cyntaf (Yr Alban) ar nos Wener, Mawrth 30.

**Nos Wener 27 Ebrill: LLOEGR**
**CHARLES CAUSLEY**
**TED HUGHES**
**WILLIAM PLOMER**
**a**
**HARRY BOARDMAN**

**Theatr y Reardon Smith am 7.30 p.m.**

Tocynnau: 40c (£1 am y gyfres)
Myfyrwyr: 30c (75c am y gyfres)

**Nos Wener 11 Mai: YR IWERDDON**

**GWASG PRIFYSGOL CYMRU**

## Presenting Saunders Lewis

Dyma'r ymgais gyntaf i gyflwyno Saunders Lewis i'r di-Gymraeg. Dadansoddir amrywiaeth a phwysigrwydd ei waith yn fanwl ac fe gynhwysir astudiaethau o'i wleidyddiaeth, ei feirniadaeth lenyddol a'i farddoniaeth. Golygwyd gan Alun R. Jones a Gwyn Thomas. Tt. 363. PRIS: £3.75.

## Lloyd George Family Letters 1885-1936

Golygwyd gan K.O. Morgan.
Cyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru a Gwasg Prifysgol Rhydychen. Cyfrol o lythyrau a anfonwyd, yn bennaf, gan Lloyd Geogre at ei wraig gyntaf.
PRIS: £4.50.

Am fwy o wyboadaeth ac am gopi o'n catalog cyflawn anfonwch air atom, neu galwch heibio.

GWASG PRIFYSGOL CYMRU,
Merthyr House, James St., Caerdydd. Ffôn 31919.

# Y Celfyddydau yng Nghaerdydd a'r Cylch—Mis Ebrill

**Llenyddiaeth:**
YR ACADEMI GYMREIG
Cynhadledd Taliesin, Pasg 1973
LLENYDDIAETH A'R CYFRYNGAU TORFOL
Ebrill 14-18
Coleg Addysg Dinas Caerdydd,
Cyncoed, CAERDYDD.
Manylion oddi wrth yr Ysgrifennydd, Dôl Pebin, 11, Rhodfa Steele, Caerfyrddin.

Darlleniadau barddoniaeth.
Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyflwyno
3 X 3"
(Beirdd o'r Alban, Loegr ac Iwerddon.)
Nos Wener, Ebrill 27: Lloegr (ail ddarlleniad yn y gyfres)
CHALRES CAUSLEY
TED HUGHES
WILLIAM PLOMER
gyda chaneuon gwerin Saesneg gan HARRY BOARDMAN
Bydd y darlleniad olaf yn y gyfres hon (Yr Iwerddon)
ar nos Wener, 11 Mai.
Theatr y Reardon Smith 7.30 p.m.
Tocynnau: 40c. (Myfyrwyr: 30c.)

CYMDEITHAS LENYDDOL CAERDYDD
Gwilym R. Jones: BOD YN FARDD
Nos Fawrth, 3 Ebrill am 7.30 p.m.
Gwesty'r Royal, Caerdydd.

CLYWCH-Y-BEIRDD
Mae'r gwasaneth poblogaidd hwn wedi ail-gychwyn bellach; gellwch glywed cerdd wahanol bob wythnos (yn Gymraeg a Saesneg, am yn ail) drwy ffonio CAERDYDD 45675

**Cerddoriaeth**
Cymdeithas Gerddorol Ysbyty Prifysgol Cymru
Côr Cymdeithas Y.P.C. yn cyflwyno'r
ELIJAH (Mendelssohn)
28 Ebrill am 8.00 p.m.
Eglwys Sant Andreas, Y Rhath, Caerdydd

Cymdeithas Gorawl Eglwys Gadeiriol Llandaf
Arweinydd: Robert Joyce
Joy Evans, soprano
Barbara Robotham contralto
Wynford Evans, tenor
Stephen Roberts, bas
14 Ebrill am 8.00 p.m.
Eglwys Gadeiriol Llandaf, Llandaf, Caerdydd

DATGANIADAU RHYNGWLADOL
**Caerdydd**
Maria Tipo, piano
30 Ebrill, 7.30 p.m.
Theatr y Reardon Smith, Caerdydd.
**Casnewydd**
Moura Lympany, piano
16 Ebrill
Theatr y Dolman, Kingsway, Casnewydd.

Cyngherddau Cerddorfaol
NEW PHILHARMONIA ORCHESTRA
Arweinydd: Wyn Morris
Unawdydd: Alfreda Hodgson
Lohengrin: Rhagarweiniad a Chyflwyniad i Act 3—Wagner
Caneuon Rückert—Mahler. Sumffoni rhif 10—Mahler
11 Ebrill am 7.30 p.m.
Neuadd Goffa, Y Barri

## ARDDANGOSFA

Os am arddangosfa o ddarluniau sy'n fwy na'r arddangosfa arferol fe ddylai 'EVERY DAY SOMETHING CHANGES' yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter fod yn ddigwyddiad o ddiddordeb. Yn ddiweddar fe sefydlwyd grwp dan yr enw "Zoo Artists Co-operative" i alluogi arlunwyr lleol i ddod at ei gilydd i weithio ac i'w hyrwyddo i arddangos casgliadau o'u gwaith. Dyma ganlyniad gweladwy cynta'r cynllun hwnnw.

Yn ogystal â gweithiau o Gelfyddyd Gain fe geir dimensiwn arall i'r arddangosfa ar ffurf "perfformiadau, defodau, cerddoriaeth a digwyddiadau eraill". Mae mynediad yn rhad i bawb—y chwilfrydig a'r rhai â diddordeb gwirioneddol. Bydd yr arddangosfa ar agor bob dydd (10.00-10.30) rhwng 16eg Ebrill a 12fed o Fai.

# AM DRO YN NEPAL

**Cynrychiolydd i gwmni o argraffwyr yng Nghaerdydd yw Morgan Francis bellach, ond mae ei hanes yn un diddorol iawn, a dweud y lleia'. Fe gofiwch rai blynyddoedd yn ol bellach i'r Maharishi Mahesh Yogi ymweld â Chymru, a dangoswyd cryn ddiddordeb yn ei athroniaeth gan laweroedd, yn cynnwys y Beatles. Dangosodd Morgan Francis hefyd ddiddordeb mawr iawn yn syniadau'r Maharishi, gymaint felly fel iddo adael ei swydd a theithio i'r India i gael ei hyfforddi am dri mis, fel y gallai yntau yn ei dro ddysgu'r grefft i eraill. Mae Morgan bellach yn darlithio bob yn ail benwythnos yn Abertawe a nifer dda yn dod i wrando arno. Cyn mynd i'w waith bob bore bydd yn myfyrio am tua ugain munud, a hyn yn ei alluogi i wynebu'r diwrnod yn ddidrafferth, a byw bywyd gwirioneddol hapus.**

**O wybod am lawer iawn o bobl sy'n mynd i'w gwaith bob bore yn flin ac yn gysglyd, yn cwyno ac yn swnian, oni fyddai'n syniad da iddynt ddod i gysylltiad â Morgan rhag blaen, neu drefnu trip i'r India bell!!**



*Morgan Francis wrth droed Everest*

Wrth baratoi yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin, i fod yn athro, doedd gen i fawr o syniad y byddwn, dair blynedd ar ol gadael y coleg, a glannau Tywi, yn treulio tri mis ar lannau'r Ganges yn dysgu bod yn athro myfyrio o dan arolygaeth Maharishi Mahesh Yogi.

Rhwng yr afonydd hyn treuliais ddwy flynedd bleserus yn dysgu yn nwyrain Llundain, a chyfnod fel adeiladydd llongau ar ynys Calvey. Newidiwyd cwrs fy mywyd wrth wrando ar 'Woman's Hour' ar y B.B.C., oherwydd ar ol gwrando ar Maharishi Mahesh Yogi'n dweud 'fe'n ganwyd i fwynhau ac nid i ddioddef" dysgais fyfyrio fy hunan a darganfyddais ei fod o fudd imi'n bersonol a hefyd yn hynod o bwysig ym myd addysg.

Yn y paragraffau sy'n dilyn rwy'n son am y siwrnai, ar ol y cwrs pan fum yn Nepal.

*******************

Cefais sioc o gael fy hunan yn Kathmandu. Pan adewais Seven Sisters ar y daith i'r India nid oeddwn yn bwriadu cerdded y 400 milltir o brifddinas Himalaya i'r gwersyll cyntaf wrth droed Everest ac yna'n ol. Roeddwn eisoes wedi bod yn Kashmir ac wedi'n siomi oherwydd na fum yn agos at yr eira tragwyddol, felly gan fy mod 5000 o filltiroedd o Gymru a dim ond 1000 o Nepal sylweddolais na fyddwn byth mor agos a hyn eto, a daliais drên at y ffin.

Ar ol taith beryglus ar fws rhwng y mynyddoedd aruthrol cefais fy synnu o weld y ddinas mor wastad; roedd pawb yn berchen beiciau. Roedd yna'n syth deimlad o fod mewn gwlad wahanol; yma roedd pobl yn fonheddig ac yn oddefgar, dim heddlu, na chardotwyr, ond digon o garedigrwydd gwirioneddol.

Ymhen ychydig o ddyddiau cyfarfyddais Max o Milan a Bob o Sydney ac ar ol paratoi'n frysiog, cychwyn ar y daith hir heb sylweddoli pa galedi a phleser oedd o'n blaenau yn ystod y bedair wythnos ganlynol.

Aethom ymlaen am 40 milltir mewn bws, a aeth ar ei ben i graig gan achosi i un o'm cyd deithwyr golli ei fraich. Yna cyrraedd pentref Barabese, a chan ei bod eisoes yn hwyr bu'n rhaid inni gysgu ynghanol y mwd ar y llawr gyda'r teithwyr eraill ac fe aethom i gysgu yn swn canu'r mamau oedd yn ceisio cael eu plant i'r un cyflwr.

Ar ol brecwast o wyau wedi eu berwi a the, croesi'r afon gyntaf a dechrau dringo. Dair awr ar ddeg yn ddiweddarach roeddem yn dal i ddringo'r un mynydd, heb aros bron ddim drwy'r dydd i gael ein gwynt atom. Roedd pob cam wedi bod yn bleser, ond bellach roedd hi'n dechrau tywyllu. O'n blaen roedd yna beth bynnag fil o droedfeddi yn codi'n syth, a dechreuwyd son am droi'n ôl, ond yn sydyn cawsom ein symud i'r ochr gan ddwy hen wraig a llwyth o fasgedi ar eu hysgwyddau. Roedd y ddwy yn fuan o'r golwg. Gwenodd y tro ohonom ar ein gilydd fel pe'n dweud 'os gallan nhw ddringo'i fyny, siawns na allwn ninnau hefyd'.

Ar ben y mynydd roedd yna Dŷ Te to gwellt, ac ni chefais erioed baned well o de, na chwsg melysach ag a gefais ar y lloriau gwelltog hynny.

Er blinder y diwrnod cynt, deffrais fel yr oedd yr haul yn codi a chamu allan wedi gwirioni'n lân o fod ar do'r byd. Roedd yr eira tragwyddol cyfagos fel pe'n gwneud y byd yn le hudol, sanctaidd, tra roedd tywyllwch y nos yn dal i lenwi'r dyffrynoedd islaw. Yn nistawrwydd y bore roedd tôn Penfro yn canu yn fy nghlustiau:

Mae teg oleuni blaen y wawr
O wlad i wlad yn dweud yn awr,
Fod bore dydd gerllaw.
Mae pen y bryniau'n llawenhau
Wrth weld yr haul yn agoshau,
A'r nos yn cilio draw.

## MENTER NEWYDD

Fe fydd yna gyfuniad anarferol o fenter fasnachol a gwaith arlunydd creadigol mewn arddangosfa sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd yn ystod mis Ebrill. Drwy gydol y mis fe ddangosir yn adeilad Banc Cymru yn Heol y Santes Fair ddarluniau gan Jack Crabtree o Gasnewydd, arlunydd y mae ei dirluniau nodedig eisoes wedi tynnu cryn sylw yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill.

Yr hyn sy'n anarferol am yr arddangosfa yw fod y Banc yr un pryd yn cynnig cyfleusterau arbennig i'r cyhoedd i fenthyca arian i brynu'r darluniau. Y gobaith yw y bydd hyn yn galluogi nifer o bobl i fuddsoddi eu harian mewn celfyddyd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â—Jenny Williams, 5 Tewkesbury Street, Caerdydd.

## PRYNU A GWERTHU

**Oes gennych chi rywbeth i'w werthu neu ydych chi am brynu rhywbeth? Os oes, beth am hysbyseb yn y golofn hon? Oes gennych chi wasanaeth i'w gynnig? Byddwn yn falch o glywed oddi wrthych.**

**Yn eisiau**
Teipiadur mewn cyflwr da, yn weddol rhad. Ffoniwch: Caerdydd 756079.

**Yn eisiau**
Rhifynnau 2 a 3 o Drydedd Gyfrol Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Os yw'r Gyfrol gyfan ar gael croesewir honno'n ogystal.

Meredydd Evans, 81 Heol Shirley, Parc y Rhath, Caerdydd. Ffôn Caerdydd 23554.

**Ar Werth;**
Pram goch, mewn cyflwr arbennig o dda—£7 Ffoniwch: Caerdydd 613617.

## DYWEDDIAD

PARRY-JONES Hyfrydwch o'r mwya yw cyhoeddi dyweddiad MOI, mab Robin a Mair Parry, Pen-y-Bryn, Edern, a HEDDYS GLAIN, merch Huw a Beryl Jones, Pen-y-Bryn, Dolgellau.

Mae Moi, sy'n athro ysgol yn y cylch yn enwog fel bardd a llythyrwr, peldroediwr a dirwestwr ac fe gynrychiolodd Jamaica yn seremoni y Cymry ar Wasgar yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor.

Dymuna'r Dinesydd yn dda iawn i'r ddau ohonynt.

## BABI NEWYDD

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Alun Williams, 13 Cottrell Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, ar enedigaeth mab, Dylan Wyn, ar Fawrth 3ydd.

Golyga hyn fod cylchrediad y Dinesydd bellach yn 5001.



# Y CLWB RYGBI

**Bellach mae sôn am Y Clwb wedi lledu i bob cwr o Gymru ac y mae'r tîm cyntaf yn teithio cyn belled â Harlech, Aberystwyth a Thrimsaran yn y Gorllewin, ac yna i Sir Fynwy i chwarae'n erbyn Cross Keys a Newbridge United. Gwelwch felly fod amrywiaeth dda o dîmau'n barod i'n derbyn ac oherwydd hynny mae safon rygbi'r Clwb yn codi bob blwyddyn. Trwy fynd allan o Gaerdydd down ar draws llawer o dîmau sy'n barod i chwarae rygbi agored yr un fath â'n dull ninnau o chwarae.**

Mae cyfartaledd oedran y chwaraewyr yn ifanc a cheir digon o frwdfrydedd ar y cae. Erbyn diwedd mis Ionawr enillodd y tîm cyntaf ddeg gêm, colli saith gyda dwy yn gydradd. Bu'r tîm yn llwyddiannus yn nwy rownd gyntaf Cwpan Mallett ac edrychwn ymlaen i'r gêm nesaf—y gyn derfynol.

Y tymor hwn enillodd y cefnwr Alun Jenkins ei le fel eilydd i dîm Cenedlaethol Undeb Gynradd Cymru yn erbyn gwlad Belg, ac ymddengys yn gyson eleni hefyd fel canolwr i dîm Undeb Gynradd Caerdydd.

Rhedwr di-flino yw'r capten Alun Siarls sy'n gyrru'r blaenwyr yn galed hyd ddiwedd pob gêm. Yn aml fe ddengys chwarter olaf y gêm taw ei fechgyn ef sydd orau eu cyflwr—mae'r ymarfer bob nos Fawrth yn y gymnasiwm yn talu'r ffordd.

Y tymor hwn ni fedrodd y mewnwr Edryd Lloyd chwarae'n gyson i'r Clwb tan yn ddiweddar. Da oedd ei gael yn ôl i ddangos ei ddawn o gwmpas y sgrym. Mae'r maswr yn siwr o dderbyn pêl dda o'i ddwylo ef bob tro; mae'n gicwr go siwr hefyd.

Daw aelodau newydd atom yn gyson gan gynnwys rhai o fyfyrwyr y Colegau. Nid yw pob aelod yn medru siarad Cymraeg ond maent yn barod i ddysgu. Bydd rhai'n dilyn cwrs mewn labordy iaith gan taw iaith swyddogol y Clwb yw'r Gymraeg.

Beth am ddod i weld y Clwb wrthi ar brynhawn Sadwrn? Ie dewch mlân fe gewch ddigon o rygbi da.

Y rhaglen am fis Ebrill yw:

Tim laf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 7 | Pontllanfraith | A |
| | 14 | Blaina Utd. | FF |
| | 18 | Rhiwbeina | A |
| | 21 | Taith | |
| | 28 | Abercynon | A |

2il dim

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 7 | Rhiwbeina 11 | FF |
| | 14 | Briton Ferry 11 | A |
| | 21 | Taith | |
| | 28 | R.T.B. Ebbw Vale | FF |

Dechreuir y gemau ar Feysydd Llandaf am dri o'r gloch.

William James
157 Bwlch Road,
Caerdydd
Ffon 566597


"Melys yw bod yn Gymro . . ."
Os ydych yn cadw mewn cysylltiad a hynt a helynt y Gymru gyfoes
drwy
Y Ddraig Goch
(misol)
75c am flwyddyn

Welsh Nation
(wythnosol)
£3.25 y flwyddyn

Darllenwch ddarlith
Gwynfor Evans
ar
"Cenedlaetholdeb Di-drais"
(10c)

Archeber pob eitem o Swyddfa Plaid Cymru, 8 Heol Y Frenhines, Caerdydd. Tel: 31944.

Dymuna Plaid Cymru bob llwyddiant i'r Dinesydd


# CLWB CYMRIC

**Fel y gŵyr pawb, roedd y flwyddyn 1969 yn un bwysig iawn yn hanes ein cenedl, sef blwyddyn sefydlu clwb pêl-droed Cymry Caerdydd! Ar wahân i dîm Tŷ'r Cymry a chwareuai ar droad y ganrif! ac ambell i unigolyn a chwareuai'n achlysurol i dim y B.B.C. doedd dim llawer o Gymry Cymraeg Caerdydd yn mynychu'r meysydd chwaraeon ar brynhawn Sadwrn. Aethpwyd ati o ddifrif felly i sefydlu clwb annibynnol Cymreig yn y brifddinas i chwarae'n gyson yng nghyngrair Caerdydd a'r Cylch bob Dydd Sadwrn. Ar y dechrau yr unig gymhelliad i lawer oedd y mwynhad o chwarae, ac ail afael yn y gêm ar ôl gadael coleg. Sylweddolwyd yn fuan ddylanwad y clwb ar y gyngrair, ac ar ddinasyddion di-Gymraeg y tîmau a wynebwyd. Ni chlywyd y fath beth o'r blaen, tîm cyfan, un-ar-ddeg, yn siarad Cymraeg ar gae pêl-droed yng Nghaerdydd o bob man—y fath halogiad! Cafwyd derbyniad digon amheus gan ambell i dîm ar y dechrau. Cynllwyn bwriadol i ddrysu ein gwrthwynebwyr oedd siarad Cymraeg. "The bloody language will die anyway" meddai un, ac aeth yr eirfa'n llawer mwy blodeuog gyda phob gôl a saethai heibio'r gôl-geidwad uniaith anffodus.**

Erbyn heddiw serch hynny, drwy ddyfalbarhad, esiampl o ymddygiad gweddus, a safon da o bêl-droed, mae'r Clwb yn cael ei dderbyn bron yn ddieithriad.

Fel pob tîm newydd i'r gynghrair roedd yn rhaid inni ddechrau yn y bumed adran. Gyda thaenelliad o Ogleddwyr a phrofiad Cyngrair Gogledd Cymru—Bethesda, Dyffryn Nantlle, Harlech, etc. ac unigolion arbennig fel Hywel Gwynfryn, Richard Morris Jones, a Derec Williams ac eraill roedd hi'n amlwg nad y bumed adran oedd gwir adlewyrchiad ein safon. Yn wir, ar ddiwedd y tymor cyntaf, roedd y tim yn mwynhau safle'n agos iawn i'r brig a sicrhawyd dyrchafiad i'r bedwaredd adran.

Erbyn y tymor 1970-71 roedd clwb Cymric wedi codi i geisio rhoi taw am byth ar 'Cardiff Welsh' fel y'n gelwid. Doedd chwarae yn y bedwaredd adran fawr anoddach a gwelwyd Cymric yn brysur ddyrchafu tuag at frig yr adran yma eto. Ar ddiwedd y tymor roedd y clwb wedi tyfu mor aruthrol fel y penderfynwyd sefydlu ail dim. Dechreuodd y trydydd tymor gyda'r tim cyntaf ym merw'r ail adran a'r babi newydd yn dysgu sefyll ar ei draed yn y bumed. Llwyddodd y ddau dim i wynebu'r sefyllfaoedd newydd yn foddhaol, ac fe atgyfnerthwyd ein gafaeliad yn yr adrannau hyn yn ystod y tymor presennol, gyda'r ddau dim yn ddiogel, a'r brig mewn golwg.

Athrawon yw asgwrn cefn y clwb gyda rhai myfyrwyr, bois coleri gwynion, a golygydd 'Y Dinesydd' yn ychwanegu ychydig o gig. 'Rydym yn ddiolchgar i'r Llydawyr hefyd am eu cyfraniad a'u hymdrech i siarad iaith y clwb. Mae si hefyd fod ambell i aelod o Gymdeithas yr Iaith wedi ymdreiddio i'r clwb a bod rhai troseddwyr di-drwydded yn chwarae!

Mae'n sicr fod y chwaraewyr wedi mwynhau eu gwrthdrawiad â'r 'sefydliad' ar y maes pêl-droed. Chwaraeodd y tîm cyntaf yn erbyn y Swyddfa Gymreig droeon, heb flotyn, a mae'r ail dim wedi curo'r B.B.C. ddwywaith y tymor hwn—yr unig amser roedd pawb am chwarae i'r ail dim!

Mae'r tymor hwn eto'n dirwyn i ben, ac fe gyhoeddwn y tablau cyflawn y mis nesaf cyn cychwyn ati unwaith eto i wynebu ansicrwydd y pumed tymor—i'r Gâd.




## CLWB CYMRIC

Capten y clwn: Gareth Huws
Is gapten: Richard Jones
Trysorydd: John E. Roberts, 19 Stryd Dogfield.
Ysgrifennydd: Ken Williams, 114 Ffordd Claude.

Cyhoeddwyd gan Fwrdd Rheoli'r Dinesydd. Argraffwyd yng Nghymru gan CSP Cyf, Caerdydd.